DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

## Practis Deintyddol Bulkeley

23 Mawrth 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-3857-6


© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 2

2. Methodoleg .......... 2

3. Cyd-destun .......... 4

4. Crynodeb .......... 5

5. Canfyddiadau .......... 7

Profiad y Claf .......... 7

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru .......... 9

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 13

Ansawdd yr Amgylchedd .......... 15

6. Camau Nesaf .......... 17

Atodiad A .......... 18

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Bulkeley yn 102 Stryd Fawr, Bangor, Gwynedd, LL57 1NS, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 23 Mawrth 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd.

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau yn bodloni'r safonau yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru[1].

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle

[1] Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru. http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/agordogfen/218839

- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o’n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a’r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o ganlyniad i arolygiadau deintyddol, a hynny drwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o’r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o’r defnydd o safonau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Bulkeley yn darparu gwasanaethau i gleifion ym Mangor a'r cyffiniau yn Sir Gwynedd.  Mae’r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae’r practis yn cyflogi tîm o staff sy’n cynnwys dau ddeintydd (sy'n goruchwylio rheoli'r gwasanaeth), tair nyrs ddeintyddol a derbynnydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Archwiliadau a chyngor rheolaidd
- Pelydrau-X
- Triniaeth ataliol a pheriodontol (y deintgig)
- Llenwadau
- Tynnu dannedd
- Corynau
- Dannedd gosod ac atgyweiriadau

Mae Practis Deintyddol Bulkeley yn darparu gwasanaethau deintyddol y GIG yn bennaf, ond dywedwyd wrthym y cynigir ac y darperir gwasanaethau preifat weithiau, er enghraifft mewnblaniadau deintyddol. Yn hyn o beth, bydd unrhyw ddeintydd sy’n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi’i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

## 4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar sut mae Practis Deintyddol Bulkeley yn bodloni'r safonau gofal yn y ddogfen Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.

Ar y cyfan, roedd pob claf a ymatebodd i holiaduron AGIC yn fodlon ar y gwasanaethau a dderbyniwyd ym Mhractis Deintyddol Bulkeley. Ychwanegodd llawer o'r cleifion sylwadau canmoliaethus ynglŷn â'r staff a'r deintyddion. Er bod y deintyddion yn dweud mai pur anaml y maent yn darparu triniaethau deintyddol preifat, rydym wedi'u hargymell i lunio ac arddangos rhestr o'r triniaethau preifat sydd ar gael a chostau'r gwasanaethau hyn.

Gwelsom fod yr holl gyfarpar ac offer deintyddol sy'n ofynnol ar gael yn y practis, ac y cynhelir archwiliadau cynnal a chadw yn rheolaidd. Nid oedd y cyfleusterau dadheintio yn cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Fodd bynnag, roedd cynlluniau eisoes wedi'u gwneud i addasu un o'r ystafelloedd storio presennol yn fan dadheintio penodol, felly argymhellwyd y dylid ystyried y canllawiau hyn ar gyfer y man hwn.

Archwiliwyd sampl o gofnodion cleifion, ac ar y cyfan roeddem o'r farn bod y safon yn foddhaol. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud awgrymiadau i wella er mwyn sicrhau cysondeb cadw cofnodion rhwng deintyddion.

Mae'n rhaid i'r practis ddatblygu system sicrhau ansawdd ffurfiol, a dylai gynnwys archwiliadau rheolaidd o'u gweithdrefnau a'u harferion dadheintio a rheoli heintiau.

Profodd tîm y practis gyfnod anodd yn ystod y 10 mis diwethaf. Fodd bynnag, gwelsom fod pob ymdrech wedi'i wneud i addasu a chynnal gwasanaeth o safon dda ar gyfer y cleifion. Ar adeg yr arolygiad, y ddau ddeintydd oedd yn goruchwylio’r gwaith o reoli'r practis yn gyffredinol.

Roedd cyfarfodydd staff wrthi'n cael eu hailgyflwyno, ac argymhellwyd y dylid darparu arfarniad blynyddol a chynllun datblygiad personol ar gyfer y staff.

Mae'r practis wedi'i leoli yng nghanol eiddo masnachol ar Stryd Fawr, Bangor. Gwnaed addasiadau er mwyn sicrhau bod y practis yn hygyrch i bobl ag anableddau a phobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn.

Mae angen gwneud gwaith ailaddurno y tu mewn, yn enwedig y mannau mae'r staff yn eu defnyddio. Gallai cwpl o fannau beri risg i ddiogelwch cleifion os na roddir sylw i'r mater. O ganlyniad, rydym wedi cynghori'r practis i ddatblygu

rhaglen adnewyddu ac ailaddurno, gan flaenoriaethu'r gwaith yn ôl yr angen a'r risgiau a nodir.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Ar y cyfan, roedd pob claf a ymatebodd i holiaduron AGIC yn fodlon ar y gwasanaeth a dderbyniwyd ym Mhractis Deintyddol Bulkeley. Ychwanegodd llawer o'r cleifion sylwadau canmoliaethus ynglŷn â'r staff a'r deintyddion. Er bod y deintyddion yn dweud mai pur anaml y maent yn darparu triniaethau deintyddol preifat, rydym wedi'u cynghori i lunio ac arddangos rhestr o'r triniaethau preifat sydd ar gael a chostau'r gwasanaethau hyn.**

Wythnos cyn yr arolygiad, rhoddodd AGIC holiaduron i'r practis i'r cleifion eu cwblhau. Cyflwynwyd 35 o holiaduron ar fore ein harolygiad, ac roedd y rhain yn nodi bod y cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth a dderbynnir yn gyffredinol. Roedd y cleifion wedi cofrestru gyda'r practis ers rhwng 10 a thros 30 o flynyddoedd, a chadarnhawyd yn unfrydol eu bod yn cael croeso gan dîm y practis, eu bod yn cael digon o wybodaeth am eu triniaeth, a'u bod yn fodlon ar y gwasanaeth.

Rhoddodd 17 o gleifion sylwadau cadarnhaol ychwanegol, gan ddefnyddio geiriau megis "ardderchog", "o'r radd flaenaf" a "gwych" i ddisgrifio eu profiadau.  Gyda'u caniatâd, rydym wedi cynnwys rhai enghreifftiau o sylwadau'r cleifion:

> *"Mae'r practis deintyddol wastad yn hyblyg ac yn sicrhau gwasanaeth da bob amser".*
>
> *"Dyma'r practis gorau ym Mangor.Mae Leigh a'r staff bob amser yn gymwynasgar a chydymdeimladol iawn".*
>
> *"Mae fy nheulu bob amser yn canmol ac yn ddiolchgar am y gofal a'r gwasanaeth rydym wedi'i dderbyn gan y practis".*

Roedd 11 o'r cleifion wedi profi oediadau wrth gael eu gweld ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Nododd dau glaf eu bod wedi aros am o leiaf 30 munud, ac ychwanegodd un ohonynt fod hyn yn digwydd ym mhob apwyntiad. Fodd bynnag, ni fynegodd unrhyw un o'r cleifion anfodlonrwydd â'r oediad, a nododd un claf ei fod yn gwybod y byddai'r deintydd yn treulio mwy o amser gyda chleifion pe byddai angen. Dywedodd y deintyddion wrthym eu bod yn ceisio cadw i'r amserlen, ond weithiau bod oediadau'n digwydd, er enghraifft pan welir bod angen gwneud triniaeth ychwanegol yn ystod yr apwyntiad.

Roedd gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys taflenni gwybodaeth i gleifion ar gael yn y practis. Roedd y wybodaeth ysgrifenedig a welsom wedi'i hargraffu mewn lliw neu mewn ffontiau gwahanol faint, ac o ganlyniad yn ennyn diddordeb pobl. Gan nad oedd lleiafrif y bobl yn gwybod beth oedd y manylion cyswllt y tu allan i oriau a sut i wneud cwyn, awgrymwyd arddangos peth o wybodaeth am y practis mewn lle mwy amlwg.

Gellid ystyried dulliau cyfathrebu eraill, er mwyn ystyried iaith lafar cleifion ac anghenion cyfathrebu ychwanegol a allai fod gan rai cleifion. Nid oedd gan y practis wefan ar y pryd, ac awgrymwyd y gallai hyn fod yn rhywbeth i'w ystyried fel dull cyfathrebu ychwanegol.

Roedd rhestr o brisiau'r GIG ar gyfer gwasanaethau deintyddol wedi'i harddangos yn yr ystafell aros.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Er bod y deintyddion yn dweud mai pur anaml y maent yn darparu triniaethau deintyddol preifat, dylid ystyried datblygu rhestr brisiau o'r triniaethau a gynigir a'r costau ar eu cyfer.***

Yn ystod yr arolygiad, clywyd y derbynnydd yn ffonio cleifion i'w hatgoffa o'u hapwyntiad y diwrnod canlynol, a nodwyd bod hyn yn wasanaeth da. Dywedodd y derbynnydd wrthym fod llawer o'r cleifion wedi mynegi eu gwerthfawrogiad o'r alwad ffôn atgoffa hon.

## *Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*

**Gwelsom fod yr holl gyfarpar ac offer deintyddol sy'n ofynnol ar gael yn y practis, ac y cynhelir archwiliadau cynnal a chadw yn rheolaidd. Nid oedd y cyfleusterau dadheintio yn cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Fodd bynnag, roedd cynlluniau eisoes wedi'u gwneud i addasu un o'r ystafelloedd storio presennol yn fan dadheintio penodol, felly argymhellwyd y dylid ystyried y canllawiau hyn ar gyfer y man hwn.**

**Archwiliwyd sampl o gofnodion cleifion, ac ar y cyfan roeddem o'r farn bod y safon yn foddhaol. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud awgrymiadau i wella er mwyn sicrhau cysondeb cadw cofnodion ymysg deintyddion.**

**Mae'n rhaid i'r practis ddatblygu system sicrhau ansawdd ffurfiol, a dylai gynnwys archwiliadau rheolaidd o'u gweithdrefnau a'u harferion dadheintio a rheoli heintiau.**

Roedd offer radiograffig (pelydr-X) ar gael ym mhob ystafell driniaeth, ac roedd tystiolaeth ddogfennol yn dangos bod y deintyddion wedi dilyn hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio o fewn y pum mlynedd diwethaf, ac mae hyn yn bodloni argymhellion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol o ran pa mor aml y dylid gwneud.

Gwelsom fod y cyfarpar a'r offer deintyddol yn drefnus iawn yn yr ystafelloedd triniaeth, ac roedd digon o stoc o ddillad amddiffynnol ar gael i'r ymarferwyr deintyddol.

Cadarnhaodd y deintyddion a'r nyrsys deintyddol eu bod yn cael hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) bob blwyddyn, a gwelsom e-bost yn cadarnhau y byddai'r hyfforddiant CPR eleni'n cael ei gynnal yn fewnol ar 26 Mawrth 2015.

Edrychwyd ar y meddyginiaethau brys a'r cyfarpar cymorth cyntaf, ac roedd system dda wedi'i sefydlu ar gyfer archwilio eu dyddiadau dod i ben. Fodd bynnag, gwelsom fod y dyddiad ar becynnau'r offer llwybr anadlu wedi dod i ben; o ganlyniad, cytunodd y deintyddion i gael pecynnau llwybrau anadlu newydd yn eu lle. Awgrymwyd y gellid defnyddio'r system gyfrifiadurol bresennol i fonitro dyddiadau dod i ben yr offer llwybr anadlu, y chwistrellau a'r nodwyddau.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Gallai'r system gyfrifiadurol bresennol, a ddefnyddir i fonitro dyddiadau dod i ben meddyginiaethau a chyfarpar mewn achosion brys, gynnwys***

***dyddiadau dod i ben yr offer llwybr anadlu, y chwistrellau a'r nodwyddau hefyd.***

Roedd contractau ar gael ar gyfer cael gwared ar wastraff clinigol a pheryglus. Roedd gwastraff yn cael ei waredu yn y bagiau gwastraff clinigol priodol, ac roedd y rhain yn cael eu storio'n ddiogel yn yr adeilad. Dywedwyd wrthym yr eir â'r bagiau gwastraff clinigol allan o'r ystafell a'u gadael i gael eu casglu o'r portsh bob diwrnod casglu. Mae'r portsh hefyd yn ffordd drwodd i'r dderbynfa, ac felly er mwyn lleihau'r risg i ddiogelwch cleifion ac ymwelwyr, cytunodd y practis i gysylltu â'r gwasanaeth casglu gwastraff clinigol i ofyn iddynt gasglu'r bag o'r lleoliad diogel yn y practis.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Ni ddylid gadael bagiau gwastraff clinigol lle y gallai cleifion ac ymwelwyr gael mynediad atynt.***

Dangosodd un o'r nyrsys deintyddol y broses ddadheintio (glanhau a sterileiddio offer deintyddol) i ni. Ar hyn o bryd, nid oes gan y practis y cyfleusterau i gydymffurfio'n llwyr â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 [2]. Er enghraifft, nid oes ystafell ddadheintio benodol yn y practis, a chan mai nifer gyfyngedig o gyfleusterau sydd ar gael, gwelsom y defnyddir dwy system wahanol yn y ddwy ystafell driniaeth.

Roedd cynlluniau wedi'u sefydlu i ychwanegu cyfleusterau dadheintio yn un o'r ystafelloedd presennol yn y safle. Ar adeg yr arolygiad, roedd sinc newydd wedi'i osod, ond nid oedd wedi'i blymio hyd yma. Yn y cyfamser, trafodwyd ffyrdd o wella'r broses ddadheintio ym mhob ystafell driniaeth, er mwyn sicrhau bod un sinc yn benodol ar gyfer golchi dwylo yn unig, a bod sinc ar wahân a phowlen ar wahân, yn ogystal â'r sinciau presennol, ar gael ar gyfer rinsio offer. Cytunodd yr ymarferwyr deintyddol i weithredu'r newidiadau hyn ar unwaith.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Cynghorir y practis i ystyried canllawiau WHTM 01-05 wrth gynllunio ar gyfer yr ystafell ddadheintio benodol yn y practis.***

---

[2] WHTM 01-05 yw'r canllawiau 'Dadheintio mewn gofal sylfaenol, practisau deintyddol a gwasanaethau deintyddol cymunedol' ar gyfer Cymru. Ei fwriad yw codi ansawdd gwaith dadheintio’n raddol mewn gwasanaethau deintyddol.

Dywedwyd wrthym fod y labordy deintyddol a ddefnyddir gan y practis wedi'i gofrestru gyda'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRC); cytunodd y deintydd i gael gafael ar dystiolaeth ddogfennol o gofrestriad y labordy ac i gadw copi ohoni yn y practis.

Edrychwyd ar gofnodion cleifion y ddau ddeintydd, gan edrych ar sampl o wyth o gofnodion i gyd. Roedd y practis yn anelu at fod yn ddi-bapur, ac felly roedd y cofnodion yn cael eu cadw yn electronig ac roedd gwybodaeth berthnasol yn cael ei sganio i'w system gyfrifiadurol. Nid oedd yr un o'r hanesion meddygol a welsom wedi'u llofnodi gan y cleifion na'u cydlofnodi gan y deintyddion, er mai dyna'r arfer mewn practisau deintyddol, oherwydd eu bod yn cael eu mewnbynnu'n uniongyrchol i'r cyfrifiadur. Cytunodd AGIC i geisio mwy o gyngor ynglŷn â'r mater hwn ar ôl yr arolygiad, a gwnaed hynny mewn ymgynghoriad â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn hyn o beth, argymhellir y camau arfer da canlynol:

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai system gadw cofnodion y practis ystyried Safonau 4.1 a 4.5 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Safon 20[3] Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well.***

***Byddem yn cynghori'r practis i ystyried cwblhau cofnod papur o hanesion meddygol i ddechrau, i gynnwys llofnod cleifion a deintyddion.Gellid cadw'r cofnodion papur hyn wedyn a/neu eu sganio i'w rhoi ar y system gyfrifiadurol.***

***Atgoffir y practis i sicrhau bod unrhyw gofnodion papur nad ydynt am gael eu cadw mwyach, yn cael eu gwaredu'n ddiogel.***

Ar y cyfan, roedd safon cadw'r cofnodion yn foddhaol ac yn cynnwys tystiolaeth o ymweliadau apwyntiad cleifion a'r triniaethau a gafwyd. Awgrymwyd gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod archwiliadau meinwe meddal y geg allanol, caniatâd cleifion, a dyddiadau ail-alw, yn cael eu nodi'n gyson yn y nodiadau clinigol. Nid oedd unrhyw system bendant wedi'i sefydlu i gofnodi a monitro atgyfeiriadau i arbenigwyr iechyd proffesiynol eraill.

---

[3] O 1 Ebrill 2015, cafodd Safonau 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well' ei olynu gan Safonau Iechyd a Gofal 2015, a dylid cymryd hynny i ystyriaeth o'r adeg hon ymlaen.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid gwella'r system cadw cofnodion ymysg deintyddion i sicrhau cysondeb, a dylid sicrhau bod archwiliadau meinwe meddal y geg allanol, caniatâd cleifion, a dyddiadau ail-alw, yn cael eu nodi yn y nodiadau clinigol.***

***Dylid datblygu system i gofnodi a monitro atgyfeiriadau i weithwyr iechyd neu weithwyr deintyddol proffesiynol eraill.***

Ar hyn o bryd, cynhelir profion dyfeisiau cludadwy (PAT) bob dwy flynedd.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Cynghorir y practis i ystyried canllawiau 'Cynnal a chadw offer trydanol cludadwy' (2013) yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wrth asesu risg y math o eitemau trydanol cludadwy a ddefnyddir yn y practis, a pha mor aml yr argymhellir cynnal profion.***

Gwelsom fod amserlen lanhau fanwl yn y practis, ar gyfer pob ystafell a mannau cymunedol yn yr adeilad. Fodd bynnag, ar wahân i archwiliadau gweledol, ni chynhaliwyd unrhyw archwiliad rheoli heintiau ffurfiol ers dros 12 mis.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Argymhellwyd y dylai'r practis gyfeirio at adran 2 Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) ynghylch system sicrhau ansawdd, ac archwiliadau dadheintio a rheoli heintiau.Dylid datblygu system ffurfiol i'r diben hwn, a gellid defnyddio'r canfyddiadau fel ffordd o ddysgu a gwella/ cadw safonau.***

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Profodd tîm y practis gyfnod anodd yn ystod y 10 mis diwethaf yn dilyn marwolaeth drist ac annisgwyl un o bartneriaid y ddeintyddfa.Fodd bynnag, gwelsom fod pob ymdrech wedi'i wneud i addasu a chynnal gwasanaeth o safon dda ar gyfer y cleifion.Ar adeg yr arolygiad, y ddau ddeintydd oedd yn goruchwylio’r gwaith o reoli'r practis yn gyffredinol.**

**Roedd cyfarfodydd staff wrthi'n cael eu hailgyflwyno, ac argymhellwyd y dylid darparu arfarniad blynyddol a chynllun datblygiad personol ar gyfer y staff.**

Gwelsom dystiolaeth o dîm clos. Roedd aelodau'r staff yn gefnogol i'w gilydd ac wedi croesawu deintydd a derbynnydd newydd i'r tîm. Roedd pob aelod arall o'r staff wedi gweithio yn y practis am flynyddoedd lawer.

O drafod â'r staff, gwelsom dystiolaeth eu bod wedi ymdopi'n dda dan amgylchiadau trist, a'u bod wedi gwneud pob ymdrech i addasu a pharhau â'r gwasanaeth er budd gorau'r cleifion.

Gwelsom fod gwybodaeth ysgrifenedig, polisïau a gweithdrefnau wedi'u hadolygu, a'u diweddaru pan oedd hynny'n ofynnol. Roedd y deintyddion wedi cael rhai o'r polisïau a gwybodaeth weithdrefnol o ffynonellau dibynadwy, megis Cymdeithas Ddeintyddol Prydain. Atgoffwyd y staff i groesgyfeirio ac addasu'r polisïau hyn yn unol â'r ddeddfwriaeth neu ganllawiau sy'n berthnasol yng Nghymru. Roedd ailadrodd yn y gwahanol bolisïau a gweithdrefnau a welsom, ond roeddem yn cydnabod bod y maes gwaith hwn yn datblygu o hyd. Awgrymwyd defnyddio system rheolaeth fersiwn ar gyfer unrhyw bolisïau/ gweithdrefnau newydd, a chyfuno neu waredu polisïau wedi'u hailadrodd fel y bo'n briodol.

Yn ystod yr arolygiad, siaradwyd â'r ddau ddeintydd, dwy o'r nyrsys deintyddol, a'r derbynnydd. Roedd pob un ohonynt yn gynnes a chroesawgar tuag atom, a derbyniwyd ein hawgrymiadau neu ein hargymhellion i wneud gwelliannau yn dda. Roedd tystiolaeth eu bod yn ymroddedig i symud ymlaen, ac o ran hyn, roedd un o'r deintyddion wedi cofrestru'r practis ar fenter "Gwella Ansawdd Gyda’n Gilydd"[4] y GIG.

---

[4] Gellir cael gafael ar fwy o wybodaeth ynglŷn â "Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd" trwy http://www.iqt.wales.nhs.uk/hafan

Roedd yr ymarferwyr deintyddol yn bodloni eu gofynion datblygiad proffesiynol parhaus, a chyflwynwyd copïau o dystysgrifau hyfforddiant i ni a oedd yn cadarnhau hyn. Er bod y staff wedi derbyn hyfforddiant ar amddiffyn plant, ni ddarparwyd unrhyw hyfforddiant ar amddiffyn oedolion (sydd hefyd yn cael ei adnabod fel Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed (POVA)). Awgrymwyd fod hwn yn hyfforddiant ychwanegol angenrheidiol y gellid ceisio ei gael ar gyfer y tîm staff.

Nid oedd unrhyw system arfarniad blynyddol wedi'i sefydlu, ond dywedwyd wrthym fod arfarniadau wedi'u cynnal yn y gorffennol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

**Dylid darparu arfarniad blynyddol ar gyfer y staff ynghyd â chynllun datblygiad personol er mwyn eu galluogi i ddatblygu eu rôl.**

Roedd cyfarfodydd tîm yn cael eu hailgyflwyno yn y practis, ac roedd hynny i ddechrau yn ystod yr wythnos ar ôl ein hymweliad arolygu. Anogwyd cynnal cyfarfodydd tîm staff yn rheolaidd er mwyn galluogi'r staff i rannu a dysgu o'u profiadau.

Ar adeg ein harolygiad, roedd datgeliad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd un o'r deintyddion wedi'i ddyddio yn 2009, felly roedd y tu allan i'r cyfnod tair blynedd sy'n unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Trafodwyd hyn â'r deintydd, a chytunodd i ddiweddaru eu harchwiliad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau presennol.

O ystyried nifer y gofynion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y practis ar gyfer monitro cydymffurfiad â rheoliadau a safonau perthnasol. Er na wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth, disgwylir y bydd tystiolaeth o welliant amlwg o ran hyn ar adeg yr arolygiad nesaf.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Mae'r practis wedi'i leoli yng nghanol eiddo masnachol ar Stryd Fawr, Bangor. Gwnaed addasiadau er mwyn sicrhau bod y practis yn hygyrch i bobl ag anableddau a phobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn.**

**Mae angen gwneud gwaith ailaddurno y tu mewn, yn enwedig y mannau mae'r staff yn eu defnyddio. Gallai cwpl o fannau beri risg i ddiogelwch cleifion os na roddir sylw i'r mater. O ganlyniad, rydym wedi cynghori'r practis i ddatblygu rhaglen adnewyddu ac ailaddurno, gan flaenoriaethu'r gwaith yn ôl yr angen a'r risgiau a nodir.**

Symudodd y practis, sydd wedi'i leoli ar gyrion canol dinas Bangor, i'r safle presennol yn ystod 2003. Cafodd y practis ei addasu o fod yn siop, ac mae'n ymestyn dros bedwar llawr, gyda dau ohonynt ar gael i'r staff yn unig. Nid oes maes parcio penodol ar gyfer y cleifion. Fodd bynnag, mae maes parcio cyhoeddus mawr gerllaw.

Mae mynediad lefel isel i'r adeilad, ac mae'r ddau ddrws i'r dderbynfa a'r ystafell aros yn hygyrch i gleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Mae llethr ar gael i fynd i un o'r ystafelloedd triniaeth a'r toiled i'r anabl ar y llawr daear. Mae'r ystafell driniaeth arall ar y llawr cyntaf, a gellir mynd yno trwy fynd i fyny'r grisiau sydd â chanllawiau.

Gwelsom fod sawl man yn yr adeilad angen ei ailaddurno neu ei adnewyddu. Er enghraifft, roedd yr uniad yn y carped o flaen yr ystafell driniaeth ar y llawr daear wedi dechrau treulio, a gallai fod yn beryglus i gleifion o ran baglu. Roedd un o'r canllawiau yn y toiled i'r anabl wedi dod yn rhydd o'r wal, a gallai fod yn beryglus o ran iechyd a diogelwch.

Roedd arwyddion o leithder yn rhai o'r mannau mae'r staff yn eu defnyddio ac roedd rhai mannau'n anniben. Roedd rhai o'r waliau, fframiau drws, sgertins a waliau yn y mannau mae'r staff yn eu defnyddio wedi'u marcio ac angen eu hailaddurno.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rydym wedi cynghori'r practis i ddatblygu rhaglen ailaddurno ac adnewyddu, gan flaenoriaethu'r gwaith yn ôl risgiau i'r cleifion a diogelwch y staff.Dylid cynnwys amserlenni ymarferol ar gyfer cwblhau'r gwaith.***

Dywedodd un o'r cleifion a ymatebodd i holiaduron AGIC bod rhai o'r switshys ar y llawr cyntaf wedi'u gorchuddio â llwch. Ar adeg ein harolygiad, roedd y mannau a welsom ni yn lân yn ôl pob golwg. Roedd amserlen lanhau fanwl ar gael, a dylai hyn sicrhau bod pob man yn cael ei gadw'n lân ac yn hylan.

## 6. Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Practis Deintyddol Bulkeley yn mynd i’r afael â’r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a'i werthuso yn rhan o’r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Bulkeley

## Dyddiad yr Arolygiad: 23 Mawrth 2015

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| 8 | Er bod y deintyddion yn dweud mai pur anaml y maent yn darparu triniaethau deintyddol preifat, dylid ystyried datblygu rhestr brisiau o'r triniaethau a gynigir a'r costau ar eu cyfer. | Rhestr brisiau i'w datblygu a'i harddangos yn yr ystafell | Leigh Williams | Wedi'i gwblhau 21/04/15 |
| | Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru | | | |
| 9/10 | Gallai'r system gyfrifiadurol bresennol, a ddefnyddir i fonitro dyddiadau dod i ben meddyginiaethau a chyfarpar mewn achosion brys, gynnwys dyddiadau terfyn yr offer llwybr anadlu, y chwistrellau a'r nodwyddau hefyd. | Y system gyfrifiadurol bresennol i gael ei hehangu i gynnwys offer llwybr anadlu, chwistrellau, nodwyddau a phadiau diffibriliwr allanol awtomatig ac ati | Leigh Williams | Wedi'i gwblhau 07/05/15 |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| 10 | Ni ddylid gadael bagiau gwastraff clinigol lle y gallai cleifion ac ymwelwyr gael mynediad atynt. | Trefniadau i gael eu gwneud fel bod y cwmni cludo gwastraff yn casglu o gwpwrdd dan glo a fydd yn cael ei agor ar ôl iddynt gyrraedd | Leigh Williams | Wedi'i gwblhau 25/04/15 |
| 10 | Cynghorir y practis i ystyried canllawiau WHTM 01-05 wrth gynllunio ar gyfer yr ystafell ddadheintio benodol yn y practis. | Gosod sinc ychwanegol dros dro yn yr ystafell sterileiddio. Gosod sinc newydd yn yr ystafell staff.<br><br>Cael cynlluniau gan gontractwyr i adnewyddu'r ystafell yn llawn a gosod sinciau newydd gan ddefnyddio canllawiau WHTM 01-05 | Leigh Williams | Diwedd Mai 2015<br><br>Diwedd Mai 2015<br><br>Haf 2015<br><br>Erbyn diwedd 2015 |
| 12 | Dylid gwella'r system cadw cofnodion ymysg deintyddion i sicrhau cysondeb, a dylid sicrhau bod archwiliadau meinwe meddal y geg allanol, caniatâd cleifion, a dyddiadau ail-alw, yn cael eu nodi yn y nodiadau clinigol.<br><br>Dylid datblygu system i gofnodi a monitro atgyfeiriadau i weithwyr iechyd neu weithwyr deintyddol proffesiynol eraill. | Leigh ac Andrea i gytuno ar beth a sut i gadw cofnodion, gan gynnwys caniatâd a dyddiadau ail-alw ar gyfer archwiliadau meinwe meddal y geg allanol. Cynnal archwiliad chwe-misol er mwyn monitro cynnydd<br><br>Datblygu a chadw llyfr atgyfeiriadau | Andrea Summers<br><br>Leigh Williams | Wedi'i gwblhau (archwiliad cyntaf erbyn mis Medi 2015)<br><br>Wedi'i gwblhau 17/04/15 |
| 12 | Cynghorir y practis i ystyried canllawiau "Cynnal a chadw offer trydanol cludadwy" (2013) yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wrth asesu risg y math o eitemau | Y practis i geisio cyfarwyddyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch er mwyn sefydlu'r risgiau. Yn dilyn hyn, sefydlu a chynnal archwiliadau a phrofion priodol, a phenderfynu pa | Leigh Williams | Wedi cael cyngor gan yr Awdurdod Gweithredol |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | trydanol cludadwy a ddefnyddir yn y practis, a pha mor aml yr argymhellir cynnal profion. | mor aml y dylid cynnal y profion a'r archwiliadau hyn. | | Iechyd a Diogelwch. Y risgiau'n cael eu hasesu ar hyn o bryd. Aros i gael eu cwblhau. |
| 12 | Argymhellwyd y dylai'r practis gyfeirio at adran 2 WHTM 01-05 ynghylch system sicrhau ansawdd, ac archwiliadau dadheintio a rheoli heintiau. Dylid datblygu system ffurfiol i'r diben hwn, a gellid defnyddio'r canfyddiadau fel ffordd o ddysgu a gwella/ cadw safonau. | Y practis i ddatblygu system ffurfiol i gefnogi rhaglen sicrhau ansawdd, gan gyfeirio at WHTM 01-05.<br>Bydd hyn o gymorth i wella a chadw safonau trwy fonitro, cynnal profion a darparu hyfforddiant. | Andrea Summers | |
| | Rheolaeth ac Arweinyddiaeth | | | |
| 14 | Dylid darparu arfarniad blynyddol ar gyfer y staff ynghyd â chynllun datblygiad personol er mwyn eu galluogi i ddatblygu eu rôl. | Y staff i dderbyn arfarniadau blynyddol, ac yn dilyn hyn, llunio cynllun datblygiad personol | Andrea Summers | Y broses wedi dechrau. Pob aelod o'r staff i dderbyn arfarniad erbyn diwedd mis Medi 2015 . |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Ansawdd yr Amgylchedd | | | |
| 15 | Rydym wedi cynghori'r practis i ddatblygu rhaglen ailaddurno ac adnewyddu, gan flaenoriaethu'r gwaith yn ôl risgiau i'r cleifion a diogelwch y staff. Dylid cynnwys amserlenni ymarferol ar gyfer cwblhau'r gwaith. | Gwaith ailaddurno ac adnewyddu i gael ei wneud<br>Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys:<br>Toiled y cleifion, yn enwedig y canllaw<br>Carped newydd i'r ystafell aros<br>Adnewyddu'r teils nenfwd a ddifrodwyd gan ddŵr<br>Diweddaru cyfleusterau toiled y staff | L C Williams | Yn parhau<br>Diwedd Gorff 2015 Diwedd Awst 2015 Diwedd Awst 2015<br>Diwedd mis Rhagfyr 2015 |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (wedi'i brintio):** ............Leigh Williams...............................................................................

**Teitl:** ............Deintydd ..............................................................................................

**Dyddiad:** ............13/05/15 ............................................................................................